# Gwenllian Gofyn

Un bore braf roedd Gwenllian wrthi yn brysur yn cwblhau sialens mathemateg. “Mae hwn yn hwyl!” gwaeddodd Gwenllian ar dop ei llais. Roedd Gwenllian wedi bod wrthi yn adio rhifau trwy’r bore! “Mae 8 + 9 = 17” dywedodd.

Ar ôl ychydig sylweddolodd Gwenllian bod y symiau yn mynd yn anoddach. “O na” meddai Gwenllian. Dydw i ddim yn gallu gwneud y symiau yma. Dechreuodd Gwenllian boeni. Doedd Gwenllian ddim yn gwybod beth i’w wneud. Beth os oedd Miss am weiddi arni oherwydd doedd hi ddim yn gallu ateb y cwestiwn?

Cododd Gwenllian ei phen a gweld Rhodri yn eistedd ac yn hedfan trwy ei waith mathemateg. “Beth os wnâi ofyn i Rhodri am gymorth?” meddyliodd Gwenllian. “Helo Rhodri, rydw i eisiau dysgu sut i wneud symiau mathemateg anodd, wyt ti’n gallu fy helpu?” gofynnodd Gwenllian. “Wrth gwrs” meddai Rhodri. “Mi fuaswn i wrth fy modd” Gweithiodd Rhodri a Gwenllian gyda’i gilydd i gwblhau’r sialens. “Dwi’n falch fy mod i wedi gofyn am gymorth. Rydw i wedi dysgu sut i wneud symiau anodd. Diolch Rhodri” dywedodd Gwenllian. Y noson honno dangosodd Gwenllian sut i adio sumiau anodd i bawb o’i theulu.